# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 20.11.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Christopher O'Neal, Gethin G. Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd), Alwyn Thomas a Robert Taylor (Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – ATRIUM ALFRESCO, 4 STRYD TEGID, BALA**

**2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – Y CWRT, 62 STRYD FAWR, BALA**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Ms Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd)

**Ar ran yr Ymgeisydd:** Ms Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu) a'r Mri Alwyn Thomas a Robert Taylor (Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Atrium Alfresco, 4 Stryd Tegid, Bala:** Mr Maseoud Anafcheh (Deilydd y drwydded) a Ms Moira Mai.

Cyn dechrau ystyried y ceisiadau, adroddwyd y derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan rhai o'r trigolion cyfagos mewn cysylltiad â'r ddau gais oedd gerbron. Fe'u derbyniwyd o fewn yr amser a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau, ond ar ôl dosbarthu rhaglen y cyfarfod. Fel canlyniad, dosbarthwyd copiau o'r sylwadau i bawb ar ddechrau'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i bawb eu darllen yn drylwyr. Nid oedd unrhyw un o'r rhai a gyflwynodd sylwadau'n bresennol a daeth i'r amlwg nad oedd tystiolaeth i ddangos os y bu iddynt dderbyn rhybudd o'r gwrandawiad yn unol â'r gofynion statudol. Yn wyneb yr ansicrwydd hyn, 'roedd yr aelodau o'r farn na allent symud ymlaen i ystyried y ceisiadau ac y dylid eu gohirio i ddyddiad arall i'w bennu.

**PENDERFYNWYD cytuno i ohirio'r ceisiadau i ddyddiad arall i'w bennu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.45am